

Cyngor Tref Llandeilo Fawr

Llandeilo Fawr Town Council



Cofnodion Cyfarfod o Gyngor Llawn Cyngor Tref Llandeilo, a gynhaliwyd ar nos Fercher y 13^{eg} o Ragfyr 2017 yn Neuadd y Sir, Llandeilo am 7.30yh.

Presennol: Y Maer y Cyng. Eifion Davies, y Dirprwy Faer y Cyng. Edward Thomas, y Cyng. Robert Jones, y Cyng. Colin Jenkins, y Cyng. Geraint Price, y Cyng. Christopher Parish, y Cyng. Gordon Kilby, y Cyng. Lesley Prosser, y Cyng. Christoph Fischer, Mr Roger Phillips (Clerc Tref)
Mr Christopher Plummer (Swyddog Cyllid)
Mr Desmond Davies (Swyddog Technegol)

Ymddiheuriadau: Y Cyng. Rebecca Butcher, y Cyng. Owen James, y Cyng. Dawn Wallace

Doedd dim materion yn ymwneud â'r Heddlu.

Cof 217 / Rhag / 17 Datganiadau o Fuddiant

Datganodd y Cyng. Colin Jenkins fuddiant yng Nghais Cynllunio E/36422, fel cymydog yr eiddo, ac ni wnaeth bleidleisio ar y mater.

Cof 218 / Rhag / 17 Adroddiad y Cynghorydd Sir

Roedd y Cyng. Edward Thomas wedi dosbarthu ei adroddiad cyn y Cyfarfod. Dywedodd y byddai cyfarfodydd ymgynghori'n cael eu cynnal gyda chyrrff cyhoeddus, mewn perthynas â'r ffordd osgoi arfaethedig. Roedd wedi ysgrifennu at Fanc Lloyds a Banc Natwest, i fynegi siom am eu penderfyniad i gau eu canghennau yn Llandeilo.

Fe fydd adran Cynllunio Llandeilo CSG yn aros fel y mae ac fe fydd yn cwmpasu ardal llawer yn fwy.

Cof 219 / Rhag / 17 Cofnodion Blaenorol

Darllenwyd cofnodion Cyfarfod y Cyngor Llawn, a gynhaliwyd yn y Siambr yn Neuadd y Sir ar nos Fercher yr 22^{ain} o Dachwedd 2017, a chadarnhawyd eu bod yn gofnod cywir.

Cynigwyd hyn gan y Cyng. Christoph Fischer ac eiliwyd gan y Cyng. Lesley Prosser. Roedd pawb o blaid.

Darllenwyd cofnodion Cyfarfod Arbennig o'r Pwyllgor Cyllid, a gynhaliwyd yn y Siambr yn Neuadd y Sir ar nos Fercher y 6^{ed} o Ragfyr, ac argymhellwyd eu bod yn cael eu derbyn.

Cynigwyd hyn gan y Cyng. Christoph Fischer ac eiliwyd gan y Cyng. Colin Jenkins. Roedd pawb o blaid.

Cof 220 / Rhag / 17 Materion yn deillio o'r cyfarfodydd blaenorol

Ynglŷn â Cof 209/ Tach / 17. (3) Roedd y Cyng. Lesley Prosser wedi paratoi copi drafft o'r cylchlythyr arfaethedig. Nodwyd.

Ynglŷn â Cof 185/ Tach /17. Adroddodd y Cyng. Colin Jenkins bod y car BMW yn dal i barcio ar y palmant wrth fynedfa Heol Alan. Cynigodd y Cyng. Jenkins bod llythyr yn cael ei anfon i'r

Heddlu, i ofyn am eu sylwadau ar y rhwystr yma. Eiliwyd y cynnig gan y Cyng. Robert Jones. Roedd pawb o blaid.

Ynglŷn â Cof 216 / Rhag /17. Cynigodd y Cyng. Colin Jenkins bod cyfanswm y rhoddion a wnaed, yn unol ag Adran 137, yn aros fel y mae yn 2017/18, sef £3,000, yn hytrach na £2,000, fel yr awgrymwyd yn y cofnod hwn. Eiliwyd y cynnig gan y Cyng. Christopher Parish. Cafwyd 3 pleidlais o blaid y cynnig, a 4 pleidlais yn erbyn. Cafodd y cynnig ei drechu a'r rhoddion a gadarnhawyd ar gyfer 2018/19 fydd £2,000, fel y cofnodwyd yng Nghyfarfod Arbennig y Pwyllgor Cyllid.

Cynigodd y Cyng. Edward Thomas bod lwfans y Maer yn cael ei gadarnhau yn £2,000 ar gyfer 2018/19. Eiliwyd y cynnig gan y Cyng. Christoph Fischer. Cafodd y cynnig hwn ei gario.

Cof 221 / Rhag / 17 Gohebiaeth yn galw am ymateb

1. Ford Gron Llandeilo. Cais am gymorth ariannol i atgyweirio eu sled Nadolig. Cynigodd y Cyng. Colin Jenkins rodd o £200. Eiliwyd hyn gan y Cyng. Robert Jones. Cynigodd y Cyng. Geraint Price ddiwygiad, sef rhodd o £100. Eiliwyd hyn gan y Cyng. Christoph Fischer. Cafodd y diwygiad ei gario gan 5 pleidlais o blaid a 2 yn erbyn.
2. Owen Phillips, Cydlynnydd Digidol CSG, ynglŷn â'r prosiect Trefi Wi-Fi. Roedd y Cyngor wedi pleidleisio ym mis Medi i beidio â chefnogi'r prosiect hwn. Gofynnwyd i'r Clerc i ateb, i gadarnhau'r penderfyniad hwn ac i awgrymu bod Mr Phillips yn cysylltu â Fforwm Busnes Llandeilo, i weld a oes ganddynt ddiddordeb yn y prosiect.

Cof 222 / Rhag /17 Gohebiaeth er gwybodaeth

1. Robert Hay, Llywodraeth Cymru, ynglŷn â Gwariant Adran 137: Terfyn ar gyfer 2018/19. Codwyd y terfyn o £7.57 i £7.86, fesul etholwr. Nodwyd.
2. Andrew Twigger, ynglŷn â Chanllawiau Cydnerthedd Cymunedol. Nodwyd.
3. Alan Wardrop, Baseline, ynglŷn â llyfryn Llandeilo a Dyffryn Tywi. Nodwyd.

Cof 223 / Rhag / 17 Materion Ariannol

1. Cyfrifon i'w talu.

	Net	TAW	Cyfanswm
Hugh Gwynne (casglu sbwriel) DD604 PLQ	£ 80.00	£ 16.00	£ 96.00*
Hugh Gwynne (casglu sbwriel) DD604 P	£ 80.00	£ 16.00	£ 96.00*
Peiriant Torri Glaswellt y Clwb Bowls (Sylwer – llai cyfraniad y Clwb Bowls o £5,600)	£ 6,980.00	£ 1,380.00	£ 8,376.00*
CGGC (Gwein cyflogres Tachwedd)	£ 20.25	£ 4.05	£ 24.30*
CGGC (Taliad ychwanegol-oriau ychwanegol)	£ 350.40		£ 350.40*
Band Llydan BT - dd	£ 54.40	£ 10.88	£ 65.28
Ar y Gair (cyfieithu) (LITC73)	£ 10.00		£ 10.00*
Ar y Gair (cyfieithu) (LITC74)	£ 153.20		£ 153.20*
Ar y Gair (cyfieithu) (LITC75)	£ 203.20		£ 203.20*
Ar y Gair (cyfieithu) (LITC76)	£ 174.55		£ 174.55*
Fire Safety Direct (gwirio diffoddiadur)	£ 34.00	£ 6.80	£ 40.80*

Dd - debyd uniongyrchol # - siec * - bacs. Argymhellwyd bod y rhain yn cael eu talu. Cynigwyd gan y Cyng. Edward Thomas ac eiliwyd gan y Cyng. Lesley Prosser. Roedd pawb o blaid.

Cof 224 / Rhag / 17 Materion Ariannol Eraill

Dyweddod y Swyddog Cyllid bod y rhagolygon ar gyfer 2018/19 ar y Chromebooks, er gwybodaeth i'r Cynghorwyr, a byddai'n bosib ail-ragolygu unrhyw eitem o'r Gyllideb ym mis Ebrill.

Cof 225 / Rhag / 17 Adroddiad y Swyddog Technegol

Roedd adroddiad Mr Davies wedi cael ei ddsbarthu ymlaen llaw. Nodwyd yr adroddiad gan nad oedd Mr Davies yn gallu bod yn bresennol yn y cyfarfod oherwydd salwch.

Cof 226 / Rhag / 17 Y Diweddaraf ar Drosoglwyddo Asedau

Roedd y Cyng. Edward Thomas wedi dosbarthu adroddiad ar gyfarfod yr Is-grŵp Trosglwyddo Asedau, a gynhaliwyd ar y 12^{fed} o Dachwedd. Roedd y broses gyfreithiol o brydlesu Parc Le Conquet yn ei gamau olaf. Unwaith fyddai Bwrdd Gweithredol CSG wedi arwyddo'r ddogfen, fe fyddai'r Cyngor yn arwyddo'r brydles.

Adroddodd y Cyng. Thomas am atborth ar gyfarfod cyhoeddus a gynhaliwyd gyda rheini'r ysgolion lleol, a fu'n bositif.

Derbyniwyd dyfynbris diwygiedig gan HACS am yr ardal chwarae newydd ym Mharc Le Conquet. Roedd hyn am gyfanswm o £26,000, ac yr oedd yr Is-grŵp Trosglwyddo Asedau yn argymhell bod archeb yn cael ei osod am i'r gwaith gael ei gwblhau erbyn diwedd y flwyddyn ariannol bresennol. Fe fyddai'r ychwanegiad arfaethedig o MUGA a Phod Cyfeillgarwch yn cael eu cadw nes y cadarnhawyd manylion ceisiadau pellach am grantiau. Cynigodd y Cyng. Edward Thomas bod archeb yn cael ei osod am y cyfarpar ardal chwarae, am gyfanswm o £26,000. Eiliwyd y cynnig gan y Cyng. Gordon Kilby. Cafodd y cynnig ei gario, gydag un yn ymatal.

Cynigodd y Cyng. Robert Jones bod tri dyfynbris yn cael eu ceisio am osod camerâu CCTV yn y parc ar yr un pryd, i gynyddu diogelwch plant a rhwystro fandaliaeth. Eiliwyd y cynnig gan y Cyng. Robert Jones. Roedd pawb o blaid.

Dyweddod y Swyddog Cyllid y byddai arian ar gael, ar yr amod bod y £63,000 y cytunwyd gyda CSG, yn cael ei dderbyn.

Dyweddod y Cyng. Thomas bod angen atgyweirio'r ffens o amgylch yr ardal Bowls. Cytunwyd i ofyn i Hugh Gwynne Fencing i ddarparu ail ddyfynbris am y 24 metr o hyd o ffens, yn ychwanegol at un a ddarparwyd eisoes gan Hugh Evans Fencing.

Rhoddodd y Cyng. Thomas fanylion am y gwaith adferol a wnaed gan CSG yn y ddau barc, yn ogystal â gwaith ychwanegol sydd eto i'w wneud.

O ran y Bandstand, roedd CSG wedi rhoi indemniad i'r Cyngor, pe byddai CADW yn achwyn am waith a wnaed ar y strwythur cyn y Trosglwyddwyd Asedau.

Cafwyd cais gan y Cyng. Christoph Fischer bod llythyr yn cael ei anfon i Carl Willet, yn cadarnhau na adawyd unrhyw falurion ym Mharc Penlan yn dilyn yr arddangosfa Tân Gwyllt a gynhaliwyd uno. Cytunwyd.

Gadawodd y Cyng. Geraint Price y cyfarfod am 9.15yh.

Cof 227 / Rhag / 17 Trawsgludiaeth a Phrifyrdd

1. Andy Falleyn, LIC, mewn perthynas â gohebiaeth a anfonwyd gan y Clerc, yn rhoi manylion cynlluniau y bwriedir eu rhoi ar waith dros y pedair blynedd nesaf, i wella ansawdd aer yn y Dref. Nodwyd.

2. Y Cyng. Edward Thomas, llythyr a anfonwyd ymlaen i LIC gan etholwr, yn dangos tagfeydd traffig ar Stryd Rhosmaen. Nodwyd.

Cof 228 / Rhag / 17 Materion Cynllunio i'w Penderfynu

- E/36508 Estyniad Un Llawr Cefn yn 16, Heol Diana.
Sylw: Dim gwrthwynebiad cyhyd â bod yr holl reoliadau adeiladu yn cael eu bodloni.
- E/36526 Rhyddhau amod 3 yn 2 Stryd y Brenin.
Sylw: Dim gwrthwynebiad cyhyd â bod yr holl reoliadau ardal cadwraeth yn cael eu bodloni.
- E/36422 Trawsnewid annedd llawr 1^{af}/ 2^{il} lawr i fod yn 3 fflat 1 ystafell wely, a'r annedd llawr gwaelod i aros yn 1, Heol Cilgant.
Sylw: Roedd y Cyngor yn dymuno gwrthwynebu'r cais hwn. Roedd gwaith eisoes wedi cael ei wneud ar yr adeilad, cyn y rhoddwyd caniatâd. Roedd y ffenestri traddodiadol eisoes wedi cael eu hamnewid â rhai plastig. Roedd y Cyngor yn pryderu am y tuedd cynyddol, lle mae pobl yn gwneud gwaith ar adeiladau ac yna'n cyflwyno ceisiadau ôl-weithredol i'w cymeradwyo.

Cof 229 / Rhag / 17 I ffurfio'r Is-grŵp Tân Gwylt ar gyfer 2018

Cytunwyd i ohirio'r eitem hon nes cyfarfod y Cyngor llawn ym mis Ionawr.

Cof 230 / Rhag /17 Adroddiad y Maer

Rhoddodd y Maer yr adroddiad canlynol ar y digwyddiadau a fynychodd ar ran y Cyngor:-
30^{ain} o Dachwedd Mynychwyd Dathliad 50 Mlynedd y Clwb Rotari yn y Plough Inn.
1^{af} o Ragfyr Cinio Nadolig y Cyngor Tref yn yr Hen Vic. Codwyd £75 i Elusen y Maer.
5^{ed} o Ragfyr Mynychwyd Cinio Blyneddol y Lleng Prydeinig Brenhinol yn y College Inn.
7^{fed} o Ragfyr Agorwyd y Ffair Nadolig yn Ysgol Bro Dinefwr.

Cof 231/ Rhag / 17 Adroddiadau Eraill

1. Adroddiad Is-grŵp Neuadd y Sir. Nodwyd.
2. Adroddiad Gŵyl Dathlu Dewi. Cyflwynodd y Cyng. Robert Jones raglen digwyddiadau'r wythnos, a drefnwyd i gyd-daro â Dydd Gŵyl Dewi. Diolchwyd i'r Cyng. Jones am ei waith caled.
Byddai holl elw'r digwyddiadau'n mynd tuag at Aelwyd yr Urdd Llandeilo. Gofynnodd am i bob un o'r Cynghorwyr i gefnogi'r wythnos, trwy werthu tocynnau.

Cof 232 / Rhag / 17 Doedd dim eitemau arall o fusnes yr oedd y Cadeirydd, oherwydd amgylchiadau arbennig, yn dymuno eu hystyried fel mater o frys, yn unol ag adran 100 B (4)(B) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972.

Daeth y cyfarfod i ben am 9.30yh.